

# HWYLUSO TENNIS
*ledled Cymru*

STRATEGAETH 2020 - 2024

TENNIS WALES TENNIS CYMRU | LTA

# HWYLUSO TENNIS
*ledled Cymru*

Tyfu tennis drwy ei wneud yn berthnasol, yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddifyr ar draws y wlad.

# EIN CEFNDIR NI

**Tennis Cymru yw Corff Llywodraethu Cenedlaethol tennis yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda'r LTA, Chwaraeon Cymru, ein partneriaid a noddwyr, tuag at ein gweledigaeth o hwyluso tennis ledled Cymru.**

## PWY YDYM NI?

Tennis Cymru yw Corff Llywodraethu Cenedlaethol dennis yng Nghymru, yn darparu'r holl lywodraethu, digwyddiadau a strwythurau cystadleuol angenrheidiol ar gyfer y gêm. Fel sefydliad nid er elw, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hadnoddau ar gefnogi'r gymuned dennis ledled Cymru, a chyflawni ein strategaeth i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer y gamp. Buom yn ymgynghori'n eang yn fewnol ac yn allanol wrth greu'r strategaeth. Mae gennym gyfle gwirioneddol gyffrous i hwyluso tennis i fwy o bobl yng Nghymru, a byddwn yn gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith o glybiau tennis, hyfforddwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr, rhieni, chwaraewyr, cefnogwyr a phartneriaid. Mae dros 1,200 o gyrtiau tennis yng Nghymru, wedi'u lleoli mewn parciau, ysgolion, colegau, prifysgolion a chlybiau tennis, yn ogystal â gwestai a chanolfannau hamdden.



Os byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i hwyluso tennis, credwn y gall miloedd yn fwy o bobl elwa o chwarae tennis.

## HWYLUSO TENNIS LEDLED CYMRU

Mae ein gweledigaeth yn cyd-fynd â'r LTA ar draws Prydain Fawr. Gyda'n gilydd, gwelwn werth mewn gweithio ar y cyd i fuddsoddi adnoddau yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cysoni ein cenhadaeth, gan anelu at ***dyfu tennis drwy ei wneud yn berthnasol, yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddifyr ledled y wlad***

Rydym yr un mor falch o'r rôl y mae ein camp yn ei chwarae wrth gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru a gwaith Chwaraeon Cymru. Mae tennis yn ffordd wych o fyw bywyd iach a heini.



# RHAGAIR

**Rwyf wir yn gobeithio y gall pawb elwa o'n gwaith yma yn Tennis Cymru o 2020 - 2024. Wrth ddatblygu ein strategaeth, cysoni ein gwaith gyda'r LTA a gyda'n partneriaid yn Chwaraeon Cymru, rydym eisiau dangos i bobl sy'n byw yma yng Nghymru y gallant chwarae tennis a bod tennis 100% yn agored iddynt, eu ffrindiau a'u teulu.**



Dechreuodd fy mhrofiad personol i o chwarae tennis yn yr ysgol ac fe ddatblygodd dros amser. Roeddwn yn chwarae gyda chlwb tennis lleol ac yn ystod y blynyddoedd dilynol, rwyf wedi chwarae ar gyrtiau tennis gyda ffrindiau a theulu mewn parciau cyhoeddus, canolfannau tennis dan do ac ar fy ngwyliau. Mae tennis yn wirioneddol hygyrch, ac mae cyrtiau tennis lleol i'w gweld ledled Cymru, a bydd ein strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl gyrtiau hyn ar gael i bobl leol.

Bydd Tennis Cymru fel sefydliad yn parhau i fod yma i gefnogi ein cymuned tennis eang ac amrywiol. Gyda thua 16,000 o aelodau clwb, dros 500 o wirfoddolwyr, a nifer cynyddol o hyfforddwyr tennis, swyddogion, cefnogwyr, rhieni a phobl yn chwarae er mwyn pleser mewn parciau ac ysgolion, rydym am sicrhau bod gennym strategaeth y gall pawb elwa ohoni.

Yn olaf, mae'n bwysig cydnabod, er mwyn tyfu tennis, mae angen inni sicrhau ei fod yn berthnasol, yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddifyr. Drwy gydweithio a buddsoddi yn y ffyrdd cywir, edrychwn ymlaen at weithio gyda phawb sy'n rhannu ein gweledigaeth er mwyn cynorthwyo tennis Cymru i ffynnu yn y dyfodol.

Simon Johnson,
**Prif Weithredwr Tennis Cymru**

# GWIREDDU EIN GWELEDIGAETH

**Byddwn yn canolbwyntio ar 7 maes i arwain ein hamser, ein hadnoddau a'n cyllid ledled Cymru.**





## THE BIG 7

01/ **AMLYGRWYDD**

Cynyddu amlygrwydd ac ymwybyddiaeth o dennis drwy gydol y flwyddyn, ar hyd a lled Cymru

02/ **ARLOESEDD**

Ehangu apêl tennis a defnyddio'r dechnoleg a'r fformatau diweddaraf

03/ **BUDDSODDI**

Buddsoddi mewn cymunedau, ysgolion a phrosiectau i gynyddu'r cyfleoedd i chwarae

04/ **HYGYRCHEDD**

Ei gwneud yn haws ac yn fwy hygyrch i bobl allu chwarae tennis yng Nghymru

05./ **YMGYSYLLTU**

Cydweithio â phawb sy'n rhannu ein gweledigaeth i ddenu a chadw diddordeb pobl mewn tennis

06/ **PERFFORMIAD**

Sefydlu llwybr ar gyfer enillwyr Cymru

07/ **ARWAIN**

Arwain, llywodraethu a diogelu tennis yng Nghymru i'r safon uchaf posibl mewn chwaraeon

# 01 / AMLYGRWYDD

## Cynyddu amlygrwydd ac ymwybyddiaeth o dennis drwy gydol y flwyddyn, ar hyd a lled Cymru

Mae tennis yn hynod o amlwg yn yr haf, gydag Wimbledon yn tynnu sylw at ein camp sy'n sbarduno ymgysylltu a chyfranogi. Mae angen i ni fanteisio'n well ar y sylw hwn a hyrwyddo, marchnata a datblygu ein camp am 12 mis y flwyddyn.

## BETH FYDDWN YN EI WNEUD?

- **Marchnata a hyrwyddo lleoliadau tennis, cyfleoedd chwarae a rhaglenni hyfforddi drwy gydol y flwyddyn.**
- **Manteisio i'r eithaf ar effaith Wimbledon o fewn cymunedau ledled y wlad gyda chyfleoedd i roi cynnig ar dennis.**
- **Sefydlu brand addas ar gyfer tennis yng Nghymru, gan godi ymwybyddiaeth, ennyn diddordeb cyfranogwyr a denu partneriaid, cefnogwyr a dilynwyr.**
- **Denu digwyddiadau a chystadlaethau tennis cartref a rhyngwladol proffil uchel i Gymru.**





*"Rydym am sicrhau bod tennis yn amlwg ar draws y wlad, gan ddenu amrywiaeth eang o chwaraewyr."*

**Adborth yn dilyn ymgynghoriad**

# 02 / ARLOESEDD

## Ehangu apêl tennis a defnyddio'r dechnoleg a'r fformatau diweddaraf

Mae tennis yn boblogaidd gyda miloedd o chwaraewyr a chefnogwyr ledled Cymru, ond gwyddom y gellir ei ystyried yn gamp anodd ei chwarae ac yn frawychus i bobl sydd eisiau cymryd rhan. Byddwn yn arddangos yr amrywiaeth o ffyrdd o chwarae tennis ac arloesi er mwyn ehangu apêl y gêm.




## BETH FYDDWN YN EI WNEUD?

- **Nodi a hyrwyddo fformatau o'r gêm sy'n ei gwneud yn hyblyg, yn hwyl ac yn haws i'w chwarae.**
- **Creu rhaglenni a digwyddiadau i ysgogi ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd mewn tennis.**
- **Darparu fformatau cystadlu mwy perthnasol a phleserus ar lefel llawr gwlad ar gyfer pob gallu, rhyw ac oedran.**



Credyd Ffotograffiaeth Kara Beth

*"Rydym wedi dechrau gweld tennis yn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg ddiweddaraf, ac rydym yn gobeithio gweld mwy fyth yn y dyfodol, ledled Cymru."*

**Sylwadau a gafwyd yn ystod ein hymgynghoriad**







# 03 / BUDDSODDI

## Buddsoddi mewn cymunedau, ysgolion a phrosiectau i gynyddu'r cyfleoedd i chwarae

Mae datblygu'r cyfleusterau lleol cywir i chwarae tennis ledled Cymru, gan sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd i chwarae, yn rhan sylfaenol o'n cynlluniau buddsoddi.



*"Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'n noddwyr i godi mwy o arian i'w fuddsoddi mewn prosiectau tennis. Rydym yn gwybod bod angen mwy o gyrtiau dan do arnom, cyrtiau mewn parciau addas a bod angen inni fuddsoddi yn ein clybiau i'w gwneud yn fodern ac yn addas."*

**Simon Johnson, Prif Weithredwr**

## BETH FYDDWN YN EI WNEUD?

- Cydweithio â'r LTA, Chwaraeon Cymru a'n partneriaid lleol i ddatblygu cyfleusterau tennis newydd a gwell ledled Cymru.
- Tyfu a datblygu ein rhwydwaith o ganolfannau tennis dan do cymunedol i ddod yn lleoliadau cymunedol ffyniannus ar gyfer tennis.
- Ennyn diddordeb pobl ifanc mewn tennis drwy bartneriaethau, rhaglenni a hyfforddiant mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion.
- Trawsnewid darpariaeth tennis mewn parciau gyda Tennis Cymru yn cefnogi cyfleusterau parc cynaliadwy ac yn cydweithio ag awdurdodau lleol.
- Cefnogi clybiau tennis i dyfu a chadw aelodau, cynyddu cyfranogiad a dod yn ariannol gynaliadwy.

# 04 / HYGYRCHEDD

**Ei gwneud yn haws ac yn fwy hygyrch i bobl allu chwarae tennis yng Nghymru.**

Mae nifer sylweddol o bobl eisiau cymryd rhan mewn tennis. Mae angen inni sicrhau ei bod yn hawdd ac yn hygyrch iddynt ddechrau chwarae ac aros yn y gêm.

## BETH FYDDWN YN EI WNEUD?

- **Gwella ymwybyddiaeth o fforddiadwyedd tennis drwy wella marchnata a chyfathrebu gyda thrigolion yng Nghymru.**
- **Ei wneud yn hawdd i bobl ddod o hyd i rywle i chwarae a rhywun i chwarae a chystadlu gyda nhw.**
- **Cyflwyno llwybr iau newydd a gwell er mwyn cael mwy o blant yn chwarae ac yn parhau i chwarae tennis.**
- **Ymgysylltu â chynulleidfaoedd nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn tennis a'u hysbrydoli drwy ein partneriaethau â sefydliadau cymunedol ac elusennau.**

*“Mae'n rhaid i dennis fod yn hygyrch i bawb. Mae angen i ni sicrhau ei fod yn fforddiadwy ac yn cael ei gynnig ledled y wlad. Byddwn yn cyflwyno tennis i bobl nad ydynt wedi chwarae o'r blaen ac yn dangos iddynt pa mor wych y gall fod i'w chwarae.”*

**Bwrdd Tennis Cymru**







# 05 / YMGYSYLLTU

## Cydweithio â phawb sy'n rhannu ein gweledigaeth i ddenu a chadw diddordeb pobl mewn tennis

Gyda thros 500 o wirfoddolwyr, 200 o hyfforddwyr tennis ac amrywiaeth enfawr o bobl frwdfrydig ac ymroddedig, mae angen inni ymgysylltu'n well â'r rheini sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn ein camp.

## BETH FYDDWN YN EI WNEUD?

- **Ysgogi a chefnogi gwirfoddolwyr drwy ddarparu hyfforddiant, gwybodaeth, adnoddau a chymorth parhaus i'w helpu i ddarparu tennis.**
- **Denu gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru.**
- **Darparu cymwysterau tennis blaenllaw o'r diwydiant, hyfforddiant datblygiad personol a mentora pwrpasol ar gyfer hyfforddwyr yng Nghymru.**
- **Recriwtio a chadw gweithlu talentog i wireddu ein gweledigaeth ledled Cymru.**



# 06/ PERFFORMIAD

## Creu llwybr ar gyfer enillwyr Cymru.

Mae cysylltiad amlwg rhwng cyfranogiad a pherfformiad, a'n nod yw creu llwybr i chwaraewyr anabl, a rhai nad ydynt yn anabl, allu llwyddo yng Nghymru. Mae angen i ni ymgysylltu â lleoliadau a hyfforddwyr, adnabod chwaraewyr talentog a'u helpu i symud ymlaen i frig y gêm.

## BETH FYDDWN YN EI WNEUD?

- **Sefydlu Canolfannau Datblygu Chwaraewyr Lleol LTA lleol a Chanolfannau Datblygu Chwaraewyr Rhanbarthol sy'n ddaearyddol hygyrch ledled y wlad er mwyn i chwaraewyr ifanc symud ymlaen at Academïau Cenedlaethol LTA.**
- **Darparu cyfleoedd hyfforddi rheolaidd ar gyfer y chwaraewyr iau gorau yng ngogledd a de Cymru.**
- **Darparu Hyfforddiant Cenedlaethol Tîm Cymru gyda chymorth perfformiad arbenigol.**
- **Cydlynu a threfnu calendr o osodiadau domestig a rhyngwladol ar gyfer tîm Cymru i gystadlu gan alluogi ein chwaraewyr gorau i gynrychioli eu gwlad.**
- **Trefnu a chynnal mwy o gystadlaethau lefel uchel yng Nghymru, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i chwaraewyr o Gymru gystadlu ar lefel uwch.**
- **Addysgu a datblygu hyfforddwyr perfformiad a phobl sydd â'r gallu i ddarparu athroniaeth datblygu chwaraewyr gyda rhagoriaeth.**
- **Cyfathrebu â chwaraewyr, rhieni a hyfforddwyr Cymru, a'u cynorthwyo i symud ymlaen at frig y gêm.**

*"Bydd chwaraewyr Cymru yn cael eu cefnogi i gyrraedd brig y gêm ar ein llwybr. Byddwn yn buddsoddi mewn adnabod chwaraewyr talentog, eu cefnogi nhw, eu teuluoedd a'u hyfforddwyr a darparu cystadlaethau, hyfforddiant a chyfleoedd gwych i chwaraewyr Cymru allu datblygu eu gyrfa."*

**Bwrdd Tennis Cymru**



# 07 / ARWAIN

## Arwain, llywodraethu a diogelu tennis yng Nghymru i'r safon uchaf posibl mewn chwaraeon

Byddwn yn arwain tennis i'r safonau uchaf, gydag ymddiriedaeth a gonestrwydd, ac yn rheoli ein camp yn y ffordd gywir er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle sydd gennym.

## BETH FYDDWN YN EI WNEUD?

- **Cydweithio â'r LTA, Chwaraeon Cymru, NSPCC a gwasanaethau statudol yng Nghymru i sicrhau bod y safonau diogelu uchaf posibl ar waith.**
- **Tyfu a datblygu ein partneriaethau masnachol yng Nghymru i gynyddu refeniw i'r gamp.**
- **Dyfeisio a chyflwyno prif strategaeth gyfathrebu a dylanwadu er mwyn gwella ein henw da, meithrin ymgysylltiad a chael cymorth ar gyfer ein gwaith.**
- **Sicrhau bod strwythurau llywodraethu arfer gorau, safonau rheoleiddio ac achrediadau yn cael eu cynnal.**
- **Datblygu, buddsoddi a chynnal y strategaeth technoleg a data, y seilwaith a'r gallu i'n galluogi i gyflawni ein cynllun strategol.**





*"Dylai'r gwaith a wnawn yn Tennis Cymru fod o'r safon uchaf, yn arwain drwy esiampl, gan ddangos ein hymrwymiad, ein brwdfrydedd a'n hangerdd a helpu pobl sy'n rhannu ein gweledigaeth ar gyfer hwyluso tennis ar hyd a lled Cymru."*

**Barry Cawte, Cadeirydd Annibynnol Tennis Cymru**

# EIN *Hamcanion*



**Rydym wedi datblygu amcanion i fesur ein gwaith yng Nghymru erbyn 2024.**

## POBL IFANC

Byddwn yn cyflwyno tennis i nifer mwy o blant a phobl ifanc ledled Cymru drwy;

- **Gynyddu canran y plant sy'n chwarae yn yr ysgol**
- **Cynyddu nifer y chwaraewyr iau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni tennis**

## OEDOLION SY'N CHWARAE

Byddwn yn cynyddu cyfranogiad oedolion mewn tennis ledled Cymru drwy;

- **Cofrestru oedolion ar gynlluniau tennis parc ledled Cymru**
- **Denu a chadw chwaraewyr sy'n oedolion yn ein clybiau a'n CITCs**



## CEFNOGWYR TENNIS

Byddwn yn hyrwyddo, cyfathrebu ac ymgysylltu cefnogwyr tennis yn well, gan gynyddu'r nifer o aelodau LTA, cefnogwyr a dilynwyr yma yng Nghymru.

*"Gall chwaraewyr o bob oed a gallu fwynhau tennis, a hynny ar hyd a lled Cymru ar dros 1,200 o gyrtiau tennis. Ein rôl yw cydweithio a datblygu tennis ar gyfer pobl ifanc, oedolion, ein cefnogwyr a'r rhai sy'n dymuno perfformio ar y lefel uchaf."*

**Bwrdd Tennis Cymru**

## PERFFORMIAD

Byddwn yn buddsoddi mewn chwaraewyr sy'n perfformio yng Nghymru drwy greu llwybr i bencampwyr Cymru, a byddwn yn ei fesur drwy;

- **Sicrhau bod y chwaraewyr, y rhieni a'r hyfforddwyr ar ein llwybr perfformiad yn fodlon iawn gyda'r cymorth a ddarparwn.**
- **Datblygu a chefnogi chwaraewyr anabl, a rhai nad ydynt yn anabl, sy'n symud ymlaen i raglenni Prydain Fawr.**





**Tennis Wales Ltd**
Francis House
No. 2 Drake Walk
Brigantine Place
Cardiff CF10 4AN

T: 02920 463335
E: tenniswales@tenniswales.org.uk

**tenniswales.org.uk**

**Tennis Cymru Cyf**
Francis House
Rhif 2 Rhodfa Drake
Maes Brigantîn
Caerdydd CF10 4AN

Ff: 02920 463335
E: tenniswales@tenniswales.org.uk

**tenniswales.org.uk**